# Sgiliau Hanfodol Cymru

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu: Dilyniant: Sgiliau

**Nodiadau pwysig:**

1. Mae pob lefel o'r sgil yn ymgorffori'r lefelau blaenorol ac yn adeiladu arnyn nhw.
2. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau 'Ymhelaethu ar ofynion y dystiolaeth' a 'Diffiniadau Gorfodol TGCh' sy'n rhoi manylion mandadol am bob cydran ac sy'n rhan hanfodol o'r safonau.
3. Ble mae'r safonau yn cyfeirio at 'gwybodaeth', gall hyn olygu testun a/neu ddelwedd a/neu rifau.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio systemau TGCh** | • wneud yn siŵr eich bod yn deall y dasg a roddwyd i chi<br><br>• defnyddio caledwedd i'ch helpu i ymgymryd â'r dasg | • wneud yn siŵr eich bod yn deall y dasg a roddwyd i chi<br><br>• defnyddio caledwedd a meddalwedd i'ch helpu i ymgymryd â'r dasg | • wneud yn siŵr eich bod yn deall y dasg a roddwyd i chi<br><br>• defnyddio gweithdrefnau cywir i ddechrau a chau system TGCh<br><br>• defnyddio gweithdrefnau cywir i agor, defnyddio a chau meddalwedd priodol | • gadarnhau eich bod yn deall y dasg a roddwyd i chi<br><br>• defnyddio gweithdrefnau cywir i ddechrau a chau systemau TGCh<br><br>• dewis cymwysiadau meddalwedd er mwyn cyflawni eich pwrpas<br><br>• defnyddio gweithdrefnau cywir i agor, defnyddio a chau meddalwedd priodol | • weithio gyda pherson priodol i'ch helpu i adnabod a disgrifio eich gweithgaredd a'i dasgau a/neu ei is-dasgau<br><br>• disgrifio a defnyddio gweithdrefnau cywir i ddechrau a chau systemau TGCh<br><br>• dewis cymwysiadau meddalwedd a chyfleusterau'r system i gyflawni eich pwrpas<br><br>• disgrifio a defnyddio gweithdrefnau cywir i agor, defnyddio a chau meddalwedd priodol | • ganfod, dadansoddi a disgrifio'n fanwl gywir eich gweithgaredd a'i is-dasgau<br><br>• cynllunio sut y byddwch yn ymgymryd â'r gweithgaredd drwy ei rannu i gyfres o dasgau neu is-dasgau<br><br>• egluro'r angen am weithdrefnau cywir i ddechrau a chau systemau TGCh a'u defnyddio<br><br>• dewis ystod o gymwysiadau meddalwedd a chyfleusterau'r system i gyflawni eich pwrpas<br><br>• egluro'r angen am weithdrefnau cywir i agor, defnyddio a chau meddalwedd priodol a'u defnyddio |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • defnyddio dulliau mewnbynnu ac allbynnu | • defnyddio dulliau mewnbynnu ac allbynnu a gwasanaethau cyfathrebu | • defnyddio dulliau mewnbynnu ac allbynnu a gwasanaethau cyfathrebu | • defnyddio ystod o ddulliau mewnbynnu ac allbynnu a gwasanaethau cyfathrebu |
| | • adnabod a defnyddio nodweddion rhyngwyneb | • adnabod a defnyddio nodweddion rhyngwyneb | • adnabod a defnyddio nodweddion rhyngwyneb | • adnabod a defnyddio nodweddion rhyngwyneb | • adnabod a defnyddio nodweddion rhyngwyneb | • adnabod a defnyddio nodweddion rhyngwyneb |
| | | | • gofyn am gymhwyso cysodiadau personol yn ôl eich anghenion | • cymhwyso cysodiadau personol yn ôl eich anghenion, heb effeithio ar waith pobl eraill a'u hailosod ar ôl eu defnyddio | • cymhwyso cysodiadau personol heb effeithio ar waith pobl eraill a'u hailosod ar ôl eu defnyddio | • cymhwyso cysodiadau personol heb effeithio ar waith pobl eraill a'u hailosod ar ôl eu defnyddio |
| | | | • gweithio â ffeiliau er mwyn galluogi storio ac adalw gwybodaeth | • gweithio â ffeiliau a ffolderi er mwyn galluogi storio ac adalw gwybodaeth yn effeithiol | • rheoli strwythurau ffeiliau a ffolderi er mwyn i chi allu storio ac adalw gwybodaeth yn effeithiol | • rheoli strwythurau ffeiliau a ffolderi er mwyn galluogi storio ac adalw gwybodaeth gennych chi neu gan eraill (lle bo hynny'n briodol) gan ddefnyddio rheolaeth fersiynau |
| | | | • dangos eich bod chi'n deall pwysigrwydd | • dangos eich bod chi'n deall pwysigrwydd | • gwneud copi wrth gefn o'ch gwaith neu wirio | • gwneud copi wrth gefn o'ch gwaith a, lle bo |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwneud copi wrth gefn o'ch gwaith | gwneud copi wrth gefn o'ch gwaith a gwybod sut i wneud hyn | bod hyn wedi cael ei wneud yn awtomatig | hynny'n briodol, gwirio bod hyn wedi cael ei wneud yn awtomatig |
| | | | • mewnosod a symud cyfryngau storio cludadwy yn saff a chywir | • trafod a defnyddio cyfryngau storio cludadwy yn saff a chywir | • trafod a defnyddio cyfryngau storio cludadwy yn saff a chywir | • trafod a defnyddio ystod o gyfryngau storio cludadwy yn saff a chywir |
| | • defnyddio'r adnodd 'help' pan fo hynny'n briodol | • defnyddio'r adnodd 'help' pan fo hynny'n briodol | • defnyddio'r adnodd 'help' pan fo hynny'n briodol | • defnyddio'r adnodd 'help' pan fo hynny'n briodol | • defnyddio'r adnodd 'help' pan fo hynny'n briodol | • defnyddio'r adnodd 'help' pan fo hynny'n briodol |
| | • gofyn am gymorth pan fo'i angen arnoch | • gofyn am gymorth pan fo gwall yn digwydd | • gofyn am gymorth pan fo gwall yn digwydd | • adnabod gwallau a gwybod pryd i ofyn am gymorth i'w datrys | • adnabod gwallau a chanfod y rhesymau posib fel y gallwch eu disgrifio i berson arall | • adnabod gwallau a chanfod y rhesymau tebygol fel y gallwch eu disgrifio'n fanwl gywir i berson arall |
| | • dilyn arferion gweithio saff ac iach sy'n cael eu dangos i chi | • dilyn arferion gweithio saff ac iach sy'n cael eu hargymell i chi | • dilyn arferion gweithio saff ac iach sy'n cael eu hargymell i chi | • dilyn arferion gweithio saff ac iach sy'n cael eu hargymell i chi | • dangos eich bod yn deall ac yn dilyn arferion gweithio saff ac iach gan gynnwys lleihau peryglon i iechyd | • egluro a chymryd camau gweithredol i sicrhau a dilyn arferion gweithio saff ac iach, gan gynnwys lleihau peryglon i iechyd |
| | | • cadw gwybodaeth mynediad yn | • cadw gwybodaeth yn ddiogel | • dilyn gweithdrefnau a argymhellir i | • disgrifio'r angen am weithdrefnau a | • egluro'r angen am weithdrefnau priodol i sicrhau |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ddiogel | • dangos eich bod chi'n ymwybodol o'r prif fygythion i ddiogelwch y rhyngrwyd a'r rhwydwaith<br><br>• defnyddio'r rhyngrwyd yn saff | sicrhau diogelwch data<br><br>• dangos eich bod chi'n ymwybodol o'r bygythion i ddiogelwch y rhyngrwyd a'r rhwydwaith a'u hadnabod petai hynny'n digwydd<br><br>• defnyddio'r rhyngrwyd yn saff | argymhellir i sicrhau diogelwch data a systemau TGCh a'u dilyn<br><br>• defnyddio'r rhyngrwyd yn saff | diogelwch data a systemau TGCh gan gynnwys defnyddio cyfrineiriau<br><br>• gweithredu gweithdrefnau gofal lle bo hynny'n briodol<br><br>• defnyddio'r rhyngrwyd yn saff |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darganfod, dewis a chyfnewid gwybodaeth** | | | | | | • gynllunio a threfnu'ch gwaith |
| | • adnabod ffynonellau o wybodaeth sy'n briodol i'ch tasg | • adnabod a defnyddio ffynonellau priodol o wybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh a ffurfiau eraill o wybodaeth | • ganfod a defnyddio ffynonellau priodol o wybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh a ffurfiau eraill o wybodaeth | • ganfod, darganfod, dewis a defnyddio ffynonellau priodol o wybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh a ffurfiau eraill o wybodaeth | • ganfod, darganfod, dewis a defnyddio ffynonellau sy'n seiliedig ar TGCh a ffynonellau eraill o wybodaeth sy'n briodol i'ch tasgau | • darganfod, gwerthuso, dewis a defnyddio ffynonellau gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh a ffynonellau eraill o wybodaeth sy'n briodol i'ch tasgau |
| | • cael gwybodaeth syml o ffynhonnell briodol sy'n seiliedig ar TGCh | • cael gwybodaeth o ffynonellau priodol sy'n seiliedig ar TGCh | • chwilio am wybodaeth o ffynonellau priodol sy'n seiliedig ar TGCh a ffynonellau eraill, a'i chael | • chwilio am wahanol fathau o wybodaeth o ffynonellau priodol sy'n seiliedig ar TGCh a ffynonellau eraill, a'u cael | • chwilio am wybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh gan ddefnyddio technegau chwilio cymhleth, a'i chael | • dylunio a defnyddio technegau chwilio effeithlon i ddarganfod gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh |
| | | | | | • llunio ymholiadau i leoli gwybodaeth berthnasol | • llunio ymholiadau i leoli gwybodaeth berthnasol gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol a meini prawf chwilio amryfal |
| | | | • chwilio'r rhyngrwyd am | • gwe-lywio a chwilio'r | • cyrchu, gwe-lywio a chwilio'r | • cyrchu, gwe-lywio a chwilio'r |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | wybodaeth<br><br>• gwirio dibynadwyedd y gwefannau yr ydych yn eu darganfod<br><br>• dewis a defnyddio gwybodaeth berthnasol i'ch tasg | rhyngrwyd am wybodaeth<br><br>• gwneud penderfyniadau call am ddibynadwyedd y gwefannau yr ydych yn eu darganfod<br><br>• dewis a defnyddio gwybodaeth berthnasol i'ch tasg<br><br>• cadarnhau statws hawlfraint yr wybodaeth yr ydych yn ei darganfod | rhyngrwyd am wybodaeth<br><br>• cymharu'r gwefannau yr ydych yn eu darganfod a gwneud penderfyniadau call am eu manwl gywirdeb a'u dibynadwyedd<br><br>• dehongli gwybodaeth a gwerthuso a yw'n addas i'ch pwrpas<br><br>• dewis a defnyddio gwybodaeth sydd ei hangen arnoch i fod yn addas i'ch pwrpas<br><br>• cadarnhau statws hawlfraint yr wybodaeth yr ydych yn ei darganfod a nodi'ch ffynonellau | rhyngrwyd yn effeithlon am wybodaeth<br><br>• gwneud penderfyniadau call am ddibynadwyedd y gwefannau yr ydych yn eu darganfod gan ddefnyddio meini prawf penodol a chyfiawnhau eich dewisiadau<br><br>• dehongli gwybodaeth a gwerthuso a yw'n addas i'ch pwrpas<br><br>• dewis a defnyddio gwybodaeth sydd ei hangen arnoch i fod yn addas i'ch pwrpas ar sail ei pherthnasedd a'i hansawdd<br><br>• cadarnhau statws hawlfraint yr wybodaeth a ddarganfyddwch a chofnodi manylion llawn am eich |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ffynonellau |
| | • mewnbynnu a chadw gwybodaeth syml er mwyn dod o hyd iddi eto | • mewnbynnu a chadw gwybodaeth er mwyn dod o hyd iddi eto yn rhwydd | • mewnbynnu a chadw gwybodaeth berthnasol i'ch tasg er mwyn i chi allu ei hadalw yn hawdd | • mewnbynnu gwybodaeth mewn fformatau priodol | • mewnbynnu gwybodaeth mewn fformatau sy'n helpu datblygiad | • mewnbynnu gwybodaeth mewn fformatau cyson<br>• trawsnewid gwybodaeth rhwng fformatau fel y bo'n briodol |
| | | | | • cadw gwybodaeth mewn ffeiliau a ffolderi wedi eu henwi'n briodol ar ddisgiau caled ac ar gyfryngau storio cludadwy fel ei bod yn gallu cael ei hadalw yn hawdd | • cadw gwybodaeth mewn ffeiliau a ffolderi sydd wedi eu henwi'n briodol, ar ddisg galed ac ar gyfryngau storio cludadwy, a sicrhau bod copïau wrth gefn yn cael eu gwneud | • mewnbynnu a chadw eich gwybodaeth mewn ffeiliau a ffolderi sydd wedi eu henwi'n briodol, ar ddisg galed ac ar gyfryngau storio cludadwy<br>• egluro'r angen am gopïau wrth gefn a sicrhau eu bod yn cael eu gwneud, gan gynnwys gennych chi os bydd rhaid |
| | • derbyn cyfathrebiad syml sy'n seiliedig ar TGCh | • anfon a derbyn cyfathrebiadau syml sy'n seiliedig ar TGCh | • anfon a derbyn cyfathrebiadau sy'n seiliedig ar TGCh<br>• agor, darllen | • defnyddio TGCh i anfon, derbyn a chyfnewid gwybodaeth<br>• anfon, derbyn | • defnyddio TGCh i anfon, derbyn, cyfnewid a rhannu gwybodaeth<br>• anfon, derbyn | • defnyddio TGCh i anfon, derbyn, cyfnewid a rhannu gwybodaeth<br>• anfon, derbyn |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ac ymateb yn briodol i e-bost<br><br>• creu ac anfon e-bost | ac ymateb yn briodol i e-bost, gan gynnwys atodiadau a defnyddio llyfr cyfeiriadau e-bost | ac ymateb yn briodol i e-bost gan gynnwys atodiadau<br><br>• copïo e-bost i eraill dim ond pan y bo'n briodol gan barchu cyfrinachedd a, lle bo'n briodol, dilyn gofynion diogelwch data<br><br>• storio e-byst, atodiadau e-bost a chyfeiriadau e-bost a'u rheoli'n effeithlon | ac ymateb yn briodol i e-bost gan gynnwys atodiadau<br><br>• copïo e-bost i eraill dim ond i ateb gofynion eich tasg gan barchu cyfrinachedd a gofynion perthnasol y Ddeddf Diogelu Data<br><br>• storio e-byst, atodiadau e-bost a chyfeiriadau e-bost a'u rheoli'n effeithlon |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth** | • fewnbynnu a golygu gwybodaeth syml | • fewnbynnu a golygu gwybodaeth | • fewnbynnu a golygu gwybodaeth i gyflawni'r canlyniad sydd ei angen arnoch<br><br>• mewnbynnu, casglu ynghyd a threfnu gwybodaeth ar ffurf testun, delweddau a rhifau | • gadw at gyfyngiadau hawlfraint yn eich defnydd o wybodaeth<br><br>• mewnbynnu, casglu ynghyd a threfnu gwybodaeth ar ffurf testun, tablau, delweddau a rhifau<br><br>• fformadu gwybodaeth mewn ffordd gyson | • gadw at gyfyngiadau hawlfraint a chyfyngiadau eraill yn eich defnydd o wybodaeth a chydnabod eich ffynonellau<br><br>• mewnbynnu, casglu ynghyd a threfnu gwybodaeth ar ffurf testun, tablau, delweddau, rhifau a chofnodion gan ddefnyddio fformatau sy'n helpu datblygiad<br><br>• casglu ynghyd a datblygu gwybodaeth o wahanol fathau o ffynonellau ar ffurf testun, tablau, delweddau, rhifau a chofnodion<br><br>• olrhain gwybodaeth newydd gan | • gadw at gyfyngiadau hawlfraint a chyfyngiadau eraill yn eich defnydd o wybodaeth a chydnabod eich ffynonellau yn llawn<br><br>• mewnbynnu, datblygu a threfnu gwybodaeth gan ddefnyddio nodweddion cymwysiadau meddalwedd i wella manwl gywirdeb ac effeithlonrwydd eich gwaith<br><br>• creu a defnyddio strwythurau a gweithdrefnau i ddatblygu gwybodaeth a chasglu ynghyd testun, tablau, delweddau, rhifau a chofnodion<br><br>• olrhain gwybodaeth newydd gan |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gynnwys gwybodaeth gyfunol<br><br>• gwerthuso gwahanol ddulliau o drefnu a chyflwyno gwybodaeth gan ystyried addasrwydd i bwrpas a chynulleidfa | gynnwys gwybodaeth gyfunol<br><br>• gwerthuso gwahanol ddulliau o drefnu a chyflwyno gwybodaeth gan ystyried addasrwydd i bwrpas a chynulleidfa |
| | | | | • mewnbynnu, datblygu, fformadu a threfnu gwybodaeth rifiadol sy'n addas i bwrpas<br><br>• defnyddio ffurfiau a thechnegau priodol i gyflwyno gwybodaeth sy'n addas i'ch pwrpas a'ch cynulleidfa | • mewnbynnu, datblygu a threfnu gwybodaeth rifiadol er mwyn iddi fod yn addas i bwrpas gan ddefnyddio meddalwedd taenlen<br><br>• datblygu cyflwyniad eich gwaith gan ddefnyddio ffurfiau a thechnegau addas i'ch pwrpas a'ch cynulleidfa a'r mathau o wybodaeth a ddefnyddir | • datblygu a mireinio cyflwyniad eich gwaith fel ei fod yn fanwl gywir, yn glir ac wedi ei gyflwyno'n gyson er mwyn bod yn addas i'ch pwrpas a'ch cynulleidfa, gan ystyried safbwyntiau eraill |

| | Lefel Mynediad 1 | Lefel Mynediad 2 | Lefel Mynediad 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • canfod a chywiro unrhyw wallau syml<br><br>• cyflwyno gwybodaeth. | • gwirio cynnwys a chywiro unrhyw wallau<br><br>• cyflwyno gwybodaeth sy'n addas i bwrpas. | • gwirio ystyr, manwl cywirdeb ac addasrwydd yr wybodaeth a gyflwynwch<br><br>• cyflwyno gwybodaeth sy'n addas i bwrpas. | • sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei chyflwyno yn fanwl gywir, yn glir ac yn addas i bwrpas a chynulleidfa<br><br>• cyflwyno gwybodaeth sy'n addas i bwrpas a chynulleidfa<br><br>• adolygu effeithiolrwydd eich gwaith. | • gwirio bod eich gwaith i gyd yn fanwl gywir, yn glir ac yn addas i bwrpas<br><br>• cyflwyno gwybodaeth sy'n addas i bwrpas a chynulleidfa gan ddefnyddio dulliau cymeradwy a/neu dempladau fel y bo'n briodol<br><br>• adolygu effeithiolrwydd datblygiad a chyflwyniad eich gwaith. | • gwirio bod eich gwaith i gyd yn fanwl gywir, clir ac yn addas i bwrpas<br><br>• cyflwyno gwybodaeth fel ei bod yn addas i'ch pwrpas ac i anghenion eich cynulleidfa<br><br>• gofyn am adborth oddi wrth eraill ac adolygu effeithiolrwydd datblygiad a chyflwyniad eich gwaith. |